| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **17 Hydref 2016** |
| **PWNC:** | **Premiymau'r Dreth Gyngor – adroddiad cynnydd ar eu gweithredu** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y Cynghorydd Hywel Eifion Jones – Cyllid** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **Marc Jones – Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **Geraint Jones – Rheolwr y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau**<br>**01248 752651**<br>**Geraint Jones3@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL MEMBERS:** | |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**Argymhellion**

Nodi'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r cynllun a'r incwm ychwanegol a ddisgwylir yn sgil cyflwyno Premiymau'r Dreth Gyngor o 1 Ebrill 2017.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gadarnhau ei fwriad i ddefnyddio unrhyw gyllideb a grëir drwy bremiymau ar gartrefi gwag ac ail gartrefi, i gynorthwyo â'r ddarpariaeth am dai fforddiadwy ar Ynys Môn. Penderfynir pellach ymlaen ar lefel y gyllideb i'w ddyrannu a'r amserlen ar gyfer ei ddefnyddio, gan gymryd i ystyriaeth polisïau cyfredol Tai a rhai'r dyfodol ac o fewn anghenion ehangach y Cyngor o ganlyniad i'r datblygiadau mawr ar Ynys Môn.

Cymeradwyo defnyddio arian wrth gefn y Cyngor i gwrdd â chost ychwanegol (£11,200) swydd y swyddog clerigol dros dro hyd at 31 Mawrth 2017.

Cymeradwyo penodi swyddog ymholiadau/refeniw ychwanegol ar sail barhanol – a chwrdd â'r gost (sef £25,000) o'r incwm ychwanegol a gasglwyd dan gynllun Premiymau'r Dreth Gyngor.

**Cefndir a datblygiadau**

Ar 10 Mawrth 2016, gwnaed y penderfyniadau a ganlyn gan y Cyngor Llawn -

- Rhoi'r gorau i unrhyw ddisgowntiau a ganiatawyd ar gyfer anheddau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac anheddau a ddefnyddir ond yn achlysurol (fe'u gelwir fel arfer yn ail gartrefi) a gosod Premiwm Treth Gyngor ar gyfer anheddau o'r fath;
- Byddai'r Premiwm Dreth Gyngor yn 25% ar gyfer anheddau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ail gartrefi;
- Byddai adolygiad yn cael ei gynnal o Bremiymau'r Dreth Gyngor ar ôl y flwyddyn lawn gyntaf o weithrediad y Cynllun; a
- Rhoes y Cyngor Llawn gyfarwyddyd ac awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 i –
    - Gyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod yn dilyn ei benderfyniad (rhoddwyd rhybuddion priodol yn yr Holyhead Mail a'r Chronicle cyn diwedd mis Mawrth 2016);

- Cyfathrebu ei benderfyniad, hefyd o fewn 21 diwrnod, ac yn arbennig i'r rhai y bydd hyn yn effeithio arnynt, drwy gyhoeddi hysbysiadau yn y wasg, darparu gwybodaeth mewn gwefannau neu ddefnyddio dulliau eraill o godi ymwybyddiaeth (cafodd tudalennau penodol eu sefydlu ar y wefan mewn perthynas â Phremiymau'r Dreth Gyngor ar anheddau a oedd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ail gartrefi ar 8 Ebrill 2016, ac anfonwyd llythyr at bob unigolyn a oedd yn berchen annedd o'r fath rhwng 12 Mai a 31 Mai yn rhoi gwybod iddynt y byddent, yn ôl cofnodiadau cyfredol y Cyngor, ac o 1 Ebrill 2017, yn atebol i dalu'r Premiwm Treth Gyngor, y rheswm am hynny ac unrhyw eithriadau. Anfonwyd 781 o lythyrau mewn perthynas ag anheddau a oedd wedi bod yn wag am gyfnod hir a 2,337 mewn perthynas ag ail gartrefi);

- Sicrhau bod trefniadau gweinyddol wedi eu sefydlu er mwyn amcangyfrif faint o anheddau sydd wedi bod wag am gyfnod hir ac ail gartrefi ac a fydd yn gymwys i dalu'r Premiwm Treth Gyngor - (mae codau ychwanegol newydd wedi cael eu sefydlu ar y system feddalwedd er mwyn nod anheddau sy'n gymwys i dalu'r Premiwm Treth Gyngor, ni ragwelir y bydd angen gwneud gwaith mawr i uwchraddio meddalwedd i weithredu'r Premiwm Treth Gyngor er y bydd angen newid y feddalwedd i gymryd i ystyriaeth y newidiadau o ran y modd y caiff y sylfaen y dreth gyngor ei chyfrifo ac adolygu'r biliau).

  Cafodd Swyddog Refeniw a Budd-daliadau ei aseinio am 2 - 3 diwrnod yr wythnos yn ystod Mai 2016 i fonitro a diweddaru cofnodiadau. Oherwydd bod y swyddog hwn bellach yn gweithio yn Cyswllt Môn, mae Swyddog Clarcyddol dros dro wedi cael ei gyflogi ar sail amser llawn o 5 Medi 2016 i ddarparu cymorth clarcyddol cyffredinol. Mae cost ychwanegol y cymorth clarcyddol ychwanegol hwn uwchlaw'r gyllideb am 2016/17. Hyd yma, mae'r swyddog hwn (yn cynnwys argostau) wedi costio £1,600 ac erbyn diwedd Mawrth 2017, amcangyfrifir y bydd y cyfanswm y gost oddeutu £11,200. Gofynnir am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i gwrdd â'r gost ychwanegol hon o gronfa wrth gefn y Cyngor ar gyfer digwyddiadau annisgwyl.

  Mae swyddogaethau'r ddau Swyddog Ymholiadau hefyd wedi cael eu hadolygu fel bod un yn canolbwyntio ar refeniw a'r llall ar ymholiadau budd-dal. Mae'r Swyddog Ymholiadau refeniw yn gorfod delio gydag ymholiadau wrth ddesg neu drwy ymweld â phobl yn eu hanheddau er mwyn cadarnhau a yw'r Premiwm Treth Gyngor yn daladwy ar gyfer yr eiddo yn dilyn ymatebion gan y perchenogion);

- Sicrhau bod trefniadau gweinyddol yn cael eu sefydlu er mwyn gweinyddu a gorfodi premiwm y Dreth Gyngor yn briodol o 1 Ebrill 2017. Wrth wneud ei benderfyniad, nododd y Cyngor Llawn bod y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno mewn egwyddor (yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith) i ddarparu unrhyw adnoddau ychwanegol y tybiwyd y byddai eu hangen (gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151), er mwyn sicrhau bod premiwm y Dreth Gyngor yn cael ei weinyddu a'i orfodi yn briodol, trefniadau a fyddai, ar y cychwyn, yn cynnwys amcangyfrif o faint o anheddau fyddai'n gymwys i dalu'r premiwm Treth Gyngor. (Fel y nodwyd uchod, mae adnodd ychwanegol wedi cael ei gyflogi i sefydlu nifer yr anheddau y codir Premiwm Treth Gyngor arnynt ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Dyma'r ymatebion a gafwyd hyd yma gan berchenogion a gafodd wybod eu bod, yn ôl cofnodiadau'r Cyngor, yn debygol o orfod talu Premiwm Treth Gyngor -

  **<u>Ail Gartrefi</u>**

  Derbyniwyd 326 o ymatebion hyd yma yn apelio yn erbyn y penderfyniad i godi premiwm. Gwrthodwyd 74 o apeliadau ac o'r herwydd, codir Premiwm y Dreth Gyngor ar yr anheddau hyn. Hyd yma, mae 93 o achosion wedi llwyddo ac o'r herwydd, ni chodir Premiwm y Dreth Gyngor ar y rhain. Dyma oedd y prif resymau: -

| Rhif | Rheswm |
|---|---|
| **11** | Yr annedd yw'r unig neu'r brif breswylfan |
| **2** | Maent yn adeiladau sy'n ategol i brif annedd |
| **3** | Annedd yn wag oherwydd bod y perchennog yn aelod o'r lluoedd arfog |
| **9** | Cyfyngiadau cynllunio ar yr annedd |
| **19** | Anheddau'n wag oherwydd bod rhaid i'r perchennog fyw'n rhywle arall fel amod o'u cyflogaeth |
| **5** | Anheddau'n cael eu marchnata i'w gosod |
| **8** | Anheddau'n cael eu marchnata i'w gwerthu |
| **23** | Tenant yn byw yn yr anheddau |
| **1** | Annedd wedi ei gwerthu |
| **2** | Anheddau fydd yn gorfod Talu Trethi Busnes |
| **6** | Anheddau bellach yn gymwys am eithriad Treth Gyngor |
| **1** | Swyddog Prisio wedi tynnu'r annedd oddi ar restr y Dreth Gyngor |
| **3** | Anheddau'n cael eu gosod i bwrpas gwyliau ac y bydd raid talu Trethi Busnes ar eu cyfer |

Mae apeliadau'n parhau i gael eu hystyried mewn perthynas â 159 achosion.

**<u>Eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir</u>**

Mae 166 o ymatebion wedi dod i law hyd yma yn apelio yn erbyn y penderfyniadau i osod premiwm. O'r rhain, bydd 76 yn cael sbario talu'r premiwm. Dyma'r prif resymau:-

| Nifer | Rheswm |
|---|---|
| **2** | Bydd raid talu Trethi Busnes ar eu cyfer oherwydd eu bod yn cael eu hysbysebu fel llety gwyliau |
| **1** | Rhan o'r brif annedd |
| **51** | Anheddau y mae perchen-ddeiliaid ynddynt |
| **2** | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai sydd ar werth |
| **2** | Eithriad y Dreth Gyngor yn berthnasol |
| **7** | Tenant yn yr anheddau |
| **3** | Anheddau wedi eu gwerthu |
| **2** | Anheddau wedi eu cymryd oddi ar restr y Dreth Gyngor |
| **6** | Anheddau wedi cael eu gadael yn wag oherwydd bod angen i'r perchennog fyw'n rhywle arall fel amod cyflogaeth |

Y prif adborth a gafwyd gan berchenogion anheddau sydd wedi ysgrifennu i gwyno am y premiwm, yn arbennig felly ar ail gartref, yw'r ffaith eu bod wedi bod yn dod ar eu gwyliau i'r ynys am nifer o flynyddoedd ac wedi bod yn cyfrannu at yr economi leol ac wedi bod yn cyflogi crefftwyr lleol i wneud gwaith cynnal a chadw neu adeiladu. Maent yn dweud eu bod yn gwario mewn siopau, bariau, tail bwyta lleol ac ati.

Cafwyd heriau yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r cyfiawnhad dros godi premiymau a'r modd y mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio'r incwm ychwanegol a gaiff.

Mae hyn wedi rhoi trosolwg pwysig o'r modd y mae, a'r modd y bydd, perchenogion o bosib yn ymateb i orfod talu'r Premiwm Treth Gyngor. Er mwyn sicrhau cadernid a chywirdeb sylfaen y dreth yn y dyfodol, mae'n amlwg y bydd angen i ni, wrth adolygu a yw'r cartrefi hyn yn brif neu'n unig gartrefi ac adolygu cyfnodau gosod tai ar gyfer gwyliau, wneud mwy o ddefnydd o gofnodiadau asiantaethau credyd yn ogystal â chadarnhau'n gorfforol neu fel arall, yr hyn a ddywedir gan berchenogion. O'r ymatebion hyd yma (ac rwy'n rhagweld y daw mwy pan gyhoeddir y biliau gwirioneddol ym mis Mawrth 2017), efallai y ceir heriau a'r lefel tribiwnlys ynghylch a gosod y premiwm ac yn y llys ynadon mewn perthynas â gorfodi pobl i dalu'r premiwm.

Mae'n bwysig felly bod y Cyngor nid yn unig yn gallu sefydlu'n gywir lefel briodol yr incwm ychwanegol y bydd yn ei godi ond bod ganddo hefyd bolisi clir ynglŷn â'r modd y mae'n bwriadu defnyddio'r incwm ychwanegol hwn er budd y gymuned leol. Er bod yr Awdurdod yn rhydd i wario'r incwm ychwanegol fel y mae'n dymuno, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud dro ar ôl tro nad fydd y refeniw ychwanegol hwn yn cael ei glustnodi i bwrpas penodol ac yn ogystal, wedi dweud fwy nag unwaith y byddir yn annog awdurdodau lleol i'w ddefnyddio i gynorthwyo gyda darparu tai fforddiadwy a chwrdd ag anghenion eraill yn y maes tai.

Gyda'r risg o heriau posibl i'r premiwm a gorfodi'r premiwm, oni fyddai'n haws amddiffyn safiad y Cyngor petai gan y Cyngor bolisi clir ar y modd y mae'n bwriadu defnyddio'r incwm ychwanegol a pheidio â defnyddio'r incwm ychwanegol i falansio'r gyllideb, er enghraifft?

Ar hyn o bryd, mae dau o Swyddogion Ymholiadau'n gweithio yn y Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau - un ar gyfer ymholiadau Refeniw a'r llall ar gyfer ymholiadau Budd-daliadau. Mae'r ddau yn swyddogion amser llawn sy'n treulio'r cyfan o'u hamser yn ymgymryd â'u dyletswyddau cyfredol. Ni fedr y ddau swyddog hyn ymdopi gyda'r gwaith ychwanegol a gyfyd yn sgil gweithredu, dilysu a chasglu'r Premiwm Treth Cyngor. Argymhellir bod disgowntiau ac eithriadau i'r premiwm yn cael eu gwirio mewn ymdrech er enghraifft i leihau achosion o osgoi talu treth ar y premiwm a chyflogi swyddog ymholiadau/bilio refeniw ychwanegol wedi ei gyllido o'r incwm ychwanegol a geir o ganlyniad i'r Premiwm Treth Gyngor. Yn seiliedig ar raddfeydd cyflog y swyddogion cyfredol, bydd hyn yn costio £25,000 y flwyddyn (gan gynnwys argostau).

- Yn ogystal, rhoes y Cyngor Llawn gyfarwyddyd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 i benderfynu a ddylai'r Cyngor Llawn, dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol ("Deddf 1992"), ddefnyddio ei bwerau dewisol i leihau'r atebolrwydd o ran y dreth gyngor sy'n codi o Bremiwm Treth Gyngor i'r graddau y byddai hynny'n rhesymol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd unrhyw amgylchiadau wedi codi a oedd, yn fy marn i, yn ei gwneud yn angenrheidiol i'r Cyngor Llawn ddefnyddio'r pŵer hwn ond petai amgylchiad o'r fath yn codi rhwng rŵan ar adeg y bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad ar ei Dreth Gyngor am 2017/18, byddir yn cynnwys hyn yn y penderfyniad a fydd gerbron y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn i'w ystyried. Byddai'r Cyngor yn cwrdd yn llawn â chost gostyngiad o'r fath.

**<u>Amcangyfrif cyfredol o'r incwm ychwanegol a fyddai'n cael ei gynhyrchu o Bremiwm Treth Gyngor o 25%</u>**

Cyn i'r Cyngor Llawn wneud ei benderfyniad ar 10 Mawrth 2016, dywedwyd wrtho y byddai premiwm o 25% yn codi incwm ychwanegol oddeutu £730k. Roedd hyn yn cynnwys lwfans 30% ar gyfer addasiad/camgymeriad.

Ar hyn o bryd, ac ar ôl diwygio'r cofnodion yn dilyn cyhoeddi llythyrau Premiwm y Dreth Gyngor a siecio cofnodiadau asiantaethau credyd (gwaith sy'n parhau i fynd rhagddo), amcangyfrifir gostyngiad o £55k yn yr incwm y disgwylir ei gasglu. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn amcangyfrifir y gellir disgwyl incwm ychwanegol o £1,025,125. Ni wnaed unrhyw lwfans am addasiad / camgymeriad mewn perthynas â'r ffigwr hwn. Mae tabl isod yn dangos y newid o gymharu â'r hyn yr adroddwyd arno i'r Cyngor llawn ym Mawrth 2016 ac rwan:-

| Ail Gartrefi - Mawrth 2016 | | | Ail Gartrefi – Medi 2016 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Band** | **Nifer** | **Band D Cyfatebol** | **Band** | **Nifer** | **Band D Cyfatebol** |
| A | 173 | 115.33 | A | 124 | 82.67 |
| B | 244 | 189.78 | B | 209 | 162.56 |
| C | 475 | 422.22 | C | 443 | 393.78 |
| D | 579 | 579.00 | D | 543 | 543.00 |
| E | 460 | 562.22 | E | 429 | 524.33 |
| F | 245 | 353.89 | F | 227 | 327.89 |
| G | 116 | 193.33 | G | 117 | 195.00 |
| H | 30 | 60.00 | H | 32 | 64.00 |
| I | 15 | 35.00 | I | 14 | 32.67 |
| **Cyfanswm** | **2,337** | **2,510.78** | | **2,138** | **2,325.89** |

Ail Gartrefi (yn seiliedig ar y ffigwr band D ar gyfartaledd ar gyfer 2016/17) refeniw ychwanegol (Medi 2016) 2,325.89 x £1,340.57 x 25% = **£779,505**

| Eiddo Gwag Tymor Hir - Mawrth 2016 | | | Eiddo Gwag Tymor Hir - Medi 2016 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Band** | **Nifer** | **Band D Cyfatebol** | **Band** | **Nifer** | **Band D Cyfatebol** |
| A | 149 | 99.33 | A | 159 | 106.00 |
| B | 135 | 105.00 | B | 142 | 110.44 |
| C | 140 | 124.44 | C | 142 | 126.22 |
| D | 152 | 152.00 | D | 155 | 155.00 |
| E | 112 | 136.89 | E | 105 | 128.33 |
| F | 42 | 60.67 | F | 47 | 67.89 |
| G | 19 | 31.67 | G | 22 | 36.67 |
| H | 0 | 0 | H | 0 | 0 |
| I | 0 | 0 | I | 1 | 2.33 |
| **Cyfanswm** | **749** | **710.00** | | **773** | **732.89** |

Cartrefi gwasg tymor hir (yn seiliedig ar y ffigwr band D ar gyfartaledd ar gyfer 2016/17) refeniw ychwanegol (Medi 2016) 732.89 x £1,340.57 x 25% = **£245,620**

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Diweddariad yw hwn ar weithredu polisi y cytunwyd arno gan y Cyngor llawn.

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Diweddariad yw hwn ar weithredu polisi y cytunwyd arno gan y Cyngor llawn.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Diweddariad yw hwn ar weithredu polisi y cytunwyd arno gan y Cyngor llawn.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Nid yw'r gyllideb a'r modd y mae'r Cyngor Llawn yn bwriadu gwario'r incwm ychwanegol a geir o osod Premiwm ar y Dreth Gyngor wedi eu penderfynu eto.

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA** (mandadol) | Cytuno hefo cynwys yr adroddiad – 03/10/16 |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Dim

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Penderfyniad y Cyngor Llawn ar Bremiymau'r Dreth Gyngor ar 10 Mawrth 2016